

Astudiaeth Achos Sbarcynni Disodli gweinydd TGCh aneffeithiol

Arbedodd Ysgol Trinity First yr Eglwys yn Lloegr yn Frome £1,600 y flwyddyn mewn costau trydan ar ôl gwario £4,200 yn disodli ei hen weinyddion TGCh aneffeithlon. Cafodd y buddsoddiad hwn ei ad-dalu ymhen 2.5 flynedd.

“Mae gweithio gyda Sbarcynni wedi bod yn wych. Mae bob amser yn braf dod o hyd i ffyrdd o arbed arian, ond mae gwneud hynny wrth nid yn unig cynnal safonau, ond eu gwella, hyd yn oed yn well.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi gallu gwneud gwaith gwerth chweil gyda'r plant ar faterion amgylcheddol ochr yn ochr â gwneud newidiadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.


- Amanda Seager, Pennaeth, Ysgol Trinity First, Frome

Dadansoddiad

Mae seilwaith TGCh wedi achosi cynnydd sylweddol mewn defnydd trydan ysgolion dros y ddau ddegawd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn wedi troi i'r gwrthwyneb yn ddiweddar wrth i weinyddion TGCh newydd ddod yn fwy effeithlon o ran ynni, wrth i gyfrifiaduron bwrdd desg gael eu disodli gan liniaduron a chyfrifiaduron llechen mwy effeithlon, ac wrth i rai ysgolion symud eu seilwaith TGCh i'r cwmwl.

Mae gweinyddion TGCh wedi bod yn elfen sylweddol o'r cynnydd hwn gan eu bod ymlaen 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, a gall hen weinyddion yn arbennig, a gynhyrchwyd cyn 2015, fod yn aneffeithlon dros ben.

Ymhlith yr opsiynau o ynni sydd ar gael i ysgolion Sbarcynni yw'r cyfle i ganolbwyntio ar y llwyth sylfaenol (defnydd o ddyfeisiau sydd ymlaen pan nad oes unrhyw un yn yr ysgol). Mae ein siart llwyth sylfaenol (isod) yn dangos effaith gweinydd newydd Trinity.



Astudiaeth Achos Sbarcynni Disodli gweinydd TGCh aneffeithlon

Gwybodaeth bellach

- Os ydych chi'n ystyried uwchraddio eich gweinyddion TGCh dylech ystyried 2 opsiwn: prynu gweinydd mwy effeithlon, neu symud eich gweinyddion oddi ar y safle i'r cwmwl.
- Mae gweinyddion cwmwl yn golygu y gellir dileu holl gostau trydan eich gweinyddion ar y safle a gellir lleihau costau cymorth TGCh yn sylweddol.
- Os ydych chi'n ystyried uwchraddio eich gweinyddion presennol ac am ddeall manteision yr arbedion trydan, rydyn ni'n argymhell asesu defnydd pŵer eich gweinyddion presennol drwy ddefnyddio monitor dyfeisiau. Gall hwn roi asesiad manwl i chi o ddefnydd eich gweinyddion presennol a'r arbedion posibl o symud i weinydd newydd. Mae gweinyddion newydd yn gynt, felly gallai fod yn bosibl cyfuno sawl gweinydd yn un – ond wrth brynu, bydd angen i chi holi ynglŷn â defnydd trydan y gweinydd newydd.



Mae gweinyddion cwmwl yn cael eu rhannu fel 'peiriannu rithwir' rhwng sawl grŵp defnyddwyr, felly gall pobl ddefnyddio'r gweinyddion y tu allan i oriau'r ysgol sy'n golygu nad yw'r defnydd trydan yn wastraff.

Mae sawl ffordd o leihau defnydd trydan o offer TGCh eich ysgol

Disodli byrddau gwaith â gliniaduron neu gyfrifiaduron llechen

Gwneud yn siŵr bod byrddau gwaith wedi'u ffurfweddu i ddiffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

Archwilio seilwaith TGCh arall mewn ysgolion (e.e. defnyddio monitor dyfeisiau), i nodi peiriannau argraffu neu lungopïo aneffeithlon, a'r rhai nad oes ganddynt fodd segur

Lleihau costau aerdymheru drwy gynyddu tymheredd ystafelloedd gweinyddion. Gallwch gadw tymheredd eich ystafell weinyddion mor uchel â 27°C heb effeithio ar effeithlonrwydd eich gweinydd.

Ffordd arall o leihau costau aerdymheru yw ail-leoli gweinyddion fel bod llif gwell o aer oer yn cyrraedd gwyntyllion y gweinyddion ac yn gadael o'r pen arall.

Gwersi a ddysgwyd

- Gallwch gyfiawnhau disodli hen seilwaith TGCh yn aml drwy'r gostyngiadau mewn costau trydan yn unig
- Mae Sbarcynni yn darparu amrywiaeth eang o offer i'ch helpu i ddeall eich defnydd ynni
- Mae gweithgareddau Sbarcynni yn cynnwys eich disgyblion yn y gwaith o nodi seilwaith TGCh a dyfeisiau eraill sy'n llyncu ynni tra'n dysgu hefyd am sgiliau bywyd ynni y gallant eu rhannu gyda'u teuluoedd gartref
- Mae Sbarcynni hefyd yn darparu meincnodi - sy'n caniatáu i chi gymharu eich defnydd trydan chi gydag ysgolion eraill naill ai ar sail gyffredinol neu'n fanylach, er enghraifft ar sail eu llwyth sylfaenol
- Mae rhybuddion Sbarcynni yn monitro eich defnydd trydan a nwy drwy ddata mesurydd clyfar eich ysgol, ac yn rhoi gwybod i chi ar unwaith os bydd eich defnydd yn cynyddu, er enghraifft, os bydd defnydd dyfais wallus yn cynyddu'n sydyn

